**Carl Sargeant AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA(L)CS/0269/17

Lynne Neagle AC/AM
Caderydd - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddCYPE@assembly.wales

30th Ebrill 2017

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Ebrill ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, yn gofyn am gadarnhad o'n sefyllfa mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Carchardai a Llysoedd.

Wrth baratoi'r memorandwm, ystyriom a ddylid gofyn am gysyniad ar gyfer cymalau 8, 15-20 ac Atodlen 1 o'r Bil, yn ogystal â chymalau 4-6, ond daethom i'r casgliad nad oedd hynny'n angenrheidiol. Yn ein barn ni, er mwyn dod o fewn Rheol Sefydlog 29, dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael digon o gymhwysedd i basio cynnig deddfwriaethol cydlynol a allai gyflawni'r un effaith yn sylweddol â darpariaethau Bil Llywodraeth y DU. Nid oeddem wedi ein hargyhoeddi bod hynny'n wir.

Er bod y cymalau hyn yn ymwneud yn rhannol ag amddiffyn, llesiant a gofal plant, maent yn rhoi ar yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth swyddogaethau sy'n sylweddol ehangach nad ydynt wedi'u datganoli (er enghraifft, mewn perthynas â marwolaethau mewn sefydliadau cyfiawnder troseddol). Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol i greu ombwdsmon i Gymru, ond dim ond swyddogaethau cyfyngedig mewn perthynas â marwolaethau plant mewn cartrefi plant diogel yn benodol y gallai'r ombwdsmon ymgymryd â hwy. Gan mai rhan fach yn unig o'r amrediad eang o swyddogaethau a osodir ar sail statudol gan Fil Llywodraeth y DU fyddai hyn, nid ydym yn meddwl y gallai'r Cynulliad gyflawni'r un effeithiau'n sylweddol â'r darpariaethau hyn. Nid oeddem wedi ein hargyhoeddi felly fod angen ceisio cydsyniad ar gyfer y cymalau hyn. Rydym yn derbyn, fodd bynnag, nad yw hwn yn fater syml ac y gellid cyflwyno'r ddadl o'r naill du neu'r llall. Rydym i gyd yn gytûn bod cymalau 8, 15-20 ac Atodlen 1 yn ymwneud, o leiaf yn rhannol, ag amddiffyn, llesiant a gofal plant yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau yn awr, o ganlyniad i'r Etholiad Cyffredinol, na fydd y Bil yn cael ei symud ymlaen yn ystod y Senedd hon yn awr felly ni fydd angen cynnal y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddadl a gynlluniwyd ar gyfer y cyfarfod llawn ar 9 Mai. Os bydd y darpariaethau hyn yn cael eu cyflwyno mewn unrhyw Fil yn y dyfodol, byddwn yn ystyried yn ofalus pa gymalau y gellid bod angen cael cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â hwy.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children